Cenn@d

9 Medi 2026

Rhifyn 289

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

# Sul Digartrefedd, 4 Hydref 2026

Bob blwyddyn, bydd yr elusen Housing Justice Cymru yn cynnal Sul Digartrefedd ar y Sul cyn Diwrnod Digartrefedd y Byd. Eleni, mae Sul Digartrefedd yn disgyn ar 4 Hydref, a'r thema yw 'Cydlyniant Cymunedol'. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â digartrefedd ymhlith eglwysi a'u cynulleidfaoedd drwy ofyn i eglwysi gynnal eu Gwasanaeth Sul Digartrefedd eu hunain, naill ai ar 4 Hydref neu ar ddyddiad arall cyfleus.

Drwy gymryd amser i fyfyrio ar Sul Digartrefedd, gobeithiwn y bydd cynulleidfaoedd eglwysig yn ystyried yr hyn y gallant ei wneud yn eu cymuned eu hunain i liniaru digartrefedd, dioddefaint a thlodi.

## Ystadegau digartrefedd diweddaraf Cymru:

**Llety dros dro a theuluoedd**
Roedd 6,201 o aelwydydd yn byw mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2026, gostyngiad o 3% ar y flwyddyn flaenorol. Gwely a brecwast a gwestai oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o aelwydydd mewn llety dros dro (2,187 o aelwydydd neu 35%), i lawr o 2,532 y flwyddyn flaenorol.

**Cysgu ar y stryd**
Nid oes gan Gymru broblem sylweddol gyda chysgu ar y stryd fel sydd yn Lloegr. Ond mae'r data diweddaraf yn dangos bod amcangyfrif o 143 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled Cymru ym mis Mawrth 2026.

**Dyletswyddau Cymorth Cynghorau Cymru**
Roedd nifer yr aelwydydd a aseswyd fel rhai digartref ac yr oedd dyletswydd arnynt i helpu i sicrhau llety (Adran 73) yn 12,183, gostyngiad o 6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd 7,017 o aelwydydd fel rhai digartref yn anfwriadol ac angen blaenoriaeth (Adran 75), gostyngiad o 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

## Beth all eich cynulleidfa ei wneud?

Bydd pob ardal yn wynebu heriau gwahanol ac mae'n bwysig cofio nad oes un ateb sy'n addas i bawb. Serch hynny, mae ymwybyddiaeth gynyddol fod atebion sy'n seiliedig ar y gymuned yn hanfodol i leihau digartrefedd yn ein plith.




- Beth am wirfoddoli mewn lloches nos leol, cegin gawl neu brosiect cymunedol fel Citadel? Mae'n debygol y bydd nifer o sefydliadau yn eich ardal yn chwilio am wirfoddolwyr, ac os na allwch ddod o hyd i un addas a'ch bod yn credu bod angen un, a allai eich eglwys agor ei drysau i ddarparu bwyd neu wely i rywun sy'n ddigartref?
- Beth am groesawu rhywun sy'n chwilio am loches ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i'ch ystafell sbâr? Mae Housing Justice Cymru yn cynnal Prosiectau Lletya ac maent bob amser yn chwilio am westeiwyr newydd i agor eu cartrefi i gynnig llety.
- Beth am rentu eich ystafell i rywun sydd newydd gael statws ffoadur am gyfnod o chwe mis drwy Brosiect Llety Ffoaduriaid Housing Justice Cymru?
- Cymerwch ran mewn Digwyddiad Her gyda'ch ffrindiau neu trefnwch gasgliad ariannol mewn ysgol i godi arian i elusen digartrefedd o'ch dewis.
- Rhowch rodd i elusen ddigartrefedd o'ch dewis.

Ceir mwy o wybodaeth ar wefan: https://housingjustice.org.uk/

### Gweddi

Arglwydd, cyfaddefwn fod ein ffydd
yn teimlo'n wan ar adegau.
Ond rydym yn rhoi ein hedyn mwstard i Ti,
gan ymddiried ynot Ti i'w dyfu.
Dysg i ni weld ein cymdogion
fel yr wyt Ti yn eu gweld nhw —
i garu nid yn unig â geiriau
ond hefyd â gweithredoedd.
Cymer ein camau bach,
a defnyddia nhw i ddod â'th deyrnas yma ar y ddaear,
ar gyfer pob cymydog heb gartref,
a phob calon sy'n hiraethu am noddfa. Amen.

Sul Dathlu Henaint — Tudalen 2
Sut mae'r tywydd? — Tudalen 4
Y ffynnon sydd byth yn sychu — Tudalen 8

# Sul Dathlu Henaint, 4 Hydref 2026

## gan y Parch. Maggie Rich

Yn ystod ei llywyddiaeth, bu'r Parch. Maggie Rich, Llywydd UBC (Adain Ddi-Gymraeg), yn hyrwyddo pwysigrwydd yr henoed yn ein plith. Yma, clywn am brosiect newydd hyfryd: diwrnod i nodi ac i ddathlu ffyddlondeb credinwyr hŷn yn ein plith, o'r enw 'Sul Dathlu Henaint'. Clywn hefyd fyfyrdodau ar arwyddocâd y diwrnod hwn gan y Parch. Peter Thomas.

**Dyma weledigaeth y Parch. Maggie Rich:**

'Ychydig flynyddoedd yn ôl, fe wnaeth y Parch. Peter Thomas gyflwyno Prosiect Caleb yn ffocysu ar henoed. Yn ystod fy llywyddiaeth yn yr Adain Ddi-Gymraeg, fe fûm i hefyd yn canolbwyntio ar henoed, yn ein heglwysi ac yn ein cymunedau. Eleni, fe fuom ni'n ffodus i gynnal prosiectau peilot ar gyfer UBC o'r enw "Celebrating Age / Dathlu Henaint". Fe ddewisom ni'r dyddiad ym mis Hydref gan mai hwnnw yw'r diwrnod y mae Age Cymru yn ei benodi fel 'Sul Arian'.

'Fe wnaeth y bobl hŷn yn y tair eglwys lle rydw i'n weinidog – ac Eglwys Rydd sy'n ymuno â ni yn gyson – ddod at ei gilydd ar brynhawn Sul ar gyfer gwasanaeth naws caffi. Fe wnaethom ni ystyried thema "ffyddlondeb": o ran eu ffyddlondeb mewn gweddi a gwasanaeth dros y blynyddoedd a ffyddlondeb Duw. Fe edrychon ni ar hanes Simeon ac Anna yn y deml: ffyddlondeb Duw yn ei addewid i Simeon y byddai'n wir yn gweld Meseia Duw, a ffyddlondeb Anna yn ymprydio ac yn gweddïo am sawl blwyddyn.

'Darllenwyd cerdd Eleanor Farjeon "Mrs Malone": y gwasanaeth i'r rhai mewn angen sy'n aml yn dawel a heb sylw, ond y mae Duw yn ei weld. Fe fuom ni hefyd yn ystyried gweinidogaeth ieuenctid, a phwysigrwydd y "gwreiddiau" hyn o fewn yr eglwys i gynnal a chryfhau'r weinidogaeth honno. Ar ôl y gwasanaeth, gweinwyd te prynhawn llawn i'r henoed gan y rhai iau a rhannwyd straeon o amgylch y ford. Mae ein henoed mor bwysig, ac mae'n dda cymryd y cyfle i ddiolch iddyn nhw, ac i ddangos gwerthfawrogiad am yr hyn y maent wedi ei wneud yn y gorffennol – ac mewn sawl achos yn parhau i'w wneud.'

**Meddai'r Parch. Peter Thomas:**

'Y mae'r Sul hwn yn gyfle inni sylweddoli'r gwerth a'r potensial a berthyn i bawb wrth iddynt dyfu'n hŷn – yn gyfle inni ddathlu yr hyn ydym a'r hyn y medrwn barhau i'w gyfrannu mewn cymuned ac eglwys.

'Y mae Gair Duw yn rhoi gwerth ac amlygrwydd i henaint, ac y mae Salm 92, adnod 13, yn ein hatgoffa: "Y maent wedi eu plannu yn Nhŷ'r Arglwydd ac yn blodeuo yng nghynteddau Duw. Rhônt ffrwyth hyd yn oed mewn henaint." Roedd Abraham yn hen ŵr, naw deg pedwar blwydd oed, pan ddywedodd Duw wrtho y byddai'n dod yn dad cenedl fawr ac y byddai Sara, ei wraig, yn cenhedlu plentyn a hithau'n naw deg dau blwydd oed. Pan drosglwyddwyd yr awenau i Josua i arwain y genedl i mewn i wlad Canaan yr oedd yntau hefyd wedi croesi oed yr addewid, a pharhaodd i arwain y genedl honno hyd nes ei farw yn 110 blwydd oed. Y mae'r Apostol Paul yn cyfeirio ato'i hun yn ei lythyr at Philemon fel "Paul, yr hen ddyn bellach" ac eto gwyddom ei fod yn dal wrthi'n brysur yn ysgrifennu llythyron at eglwysi Effesus, Colosia a Philipi, ac yntau mewn carchar. Y mae llawer o enghreifftiau eraill o'r modd y defnyddiodd Duw unigolion ym mlynyddoedd euraid eu bywyd i fod o wasanaeth ac i ddwyn ffrwyth yn eu henaint. Y mae proffwyd Eseia yn nodi y bydd "y rhai sydd a'u gobaith yn yr Arglwydd yn adnewyddu eu nerth. Byddant yn hedfan ar adenydd fel eryrod; byddant yn rhedeg ac ni fyddant yn flinedig, byddant yn cerdded ac ni fyddant yn llewygu". Nid yw cynhaliaeth a nerth Duw yn lleihau wrth inni dyfu'n hŷn!

'Gallwn barhau i fod o wasanaeth ym mlynyddoedd ein henaint oherwydd bod Duw yn rhoi'r grym a'r gallu inni wneud hynny; bydd yn ein hadnewyddu ac yn ein grymuso i ddal ati. Mae'r Sul hwn nid yn unig yn gyfle i ddathlu henaint, ond yn her inni sydd wedi cyrraedd y tymor hwnnw mewn bywyd i ystyried y breintiau a'r cyfleoedd y mae Duw yn parhau i'w cynnig inni a'r drysau y mae ef yn dal i'w hagor yn ein hanes. Ymddiriedwn ynddo a chyfeirio ein bywydau yn glod ac yn ogoniant i'w enw.'



# O Ddesg y Llywydd

## gan Glynis Owen, Llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC 2025–27

### Adegau allweddol a Threfeca

Gobeithio eich bod wedi gallu gwneud yn fawr o'r haf ac yn teimlo'n frwdfrydig ac wedi eich adnewyddu ar ddechrau tymor a blwyddyn newydd o addoliad, tystiolaeth a gwasanaeth yn eich eglwys a chyda'n gilydd fel Cyfundeb.



Yn gynharach yr haf hwn, aeth fy ffrindiau a minnau i Drefeca ar gyfer yr Wythnos Wyliau (Holiday Week) a gynhelid yno. Dim trenau wedi'u gohirio na'u canslo, dim ciwiau pum awr yn Dover, dim lolfeydd maes awyr llawn dop; dim ond awyr iach cefn gwlad Aberhonddu, llety cyfforddus iawn, bwyd blasus ac amser i ymlacio a dadflino. Os oeddech chi eisiau crwydro, gallech ymweld ag Aberhonddu, Talgarth, y Gelli Gandryll, Crughywel, Llan-gors a llawer mwy o leoliadau a siopau coffi hyfryd gerllaw, yn ogystal â mynychu Sioe Frenhinol Cymru.

Ond mae bod yn Nhrefeca yn llawer mwy na hynny. Mae hanes ac ysbrydolrwydd yn cyfuno i greu awyrgylch sy'n anodd ei ddiffinio ond sy'n hawdd ei ddeall gan bawb sy'n caru Trefeca ac wedi caru'r lle ers degawdau lawer. Yno, rydych chi'n siŵr o gwrdd â phobl eraill y mae hefyd yn lle arbennig iddyn nhw. Eleni roedd cymysgedd o aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac aelodau o eglwysi eraill wedi cael eu denu yno, ac roedd yn llawenydd go iawn dod i adnabod ein gilydd yn eithaf da yn ystod yr wythnos. Felly, peidiwch ag ofni dod yno ar eich pen eich hun; byddwch yn cael eich cofleidio gan gynhesrwydd y croeso a chyfeillgarwch gan eraill.

Yn ganolog i hynny, wrth gwrs, mae'r croeso gan Teresa a Wayne sy'n rhedeg y ganolfan. A'r hyn a wnaeth yr wythnos yn arbennig o gyfoethog oedd y myfyrdodau dyddiol, bore a nos, dan arweiniad Wayne ac y cyfrannodd pawb atynt. Rwy'n gobeithio y byddwch yn cael cyfle i glywed y myfyrdodau hynny mewn rhyw gyd-destun dros y flwyddyn nesaf, gan eu bod yn rhai treiddgar iawn. Cymerodd Wayne benodau o stori bywyd Howell Harris a'n herio i feddwl am oblygiadau adegau allweddol yn ein bywydau ein hunain. Ac fe'n hanogwyd i ymweld â'r lleoliadau, yn y cefn gwlad cyfagos, lle bu'r adegau allweddol a thyngedfennol hynny ym mywyd Harris.

Y flwyddyn nesaf bydd cynlluniau'n cael eu trefnu i ddathlu pen-blwydd arbennig yn hanes Trefeca a chynhelir y Gymanfa Gyffredinol yno ym mis Gorffennaf 2027. Ond does dim rhaid i chi aros tan hynny; mae modd inni gefnogi Trefeca yn ystod y flwyddyn. Mae fy nghyd-aelodau yng nghapel Trehill, ger Caerdydd, eisiau mynd yno am benwythnos o gymdeithas fel eglwys. Beth am i chithau ystyried pryd ac efo pwy y gallwch chi dreulio amser o adnewyddiad yno?

Y tymor hwn hefyd bydd gennym gyfleoedd sy'n deillio o'r ymgynghoriad ar ailstrwythuro a ddigwyddodd y llynedd. Mae'n bryd canolbwyntio ar genhadaeth a gweinidogaeth, gyda'r eglwys leol wrth wraidd ein hymdrechion. Rwy'n gobeithio y bydd Gobaith:Connect, yr elusen ymestyn allan yn gymdeithasol y mae sawl Henaduriaeth wedi dangos diddordeb ynddi, yn ehangu ac yn dod yn rhan annatod o'n gwaith. Mae rhaglen o weithgareddau eisoes wedi'i chynllunio ar ei chyfer, ond bydd hefyd yn arwain at gysylltiadau newydd â phartneriaid lleol a chyfleoedd ar gyfer cyllid.

Bydd y cwrs hyfforddi newydd yn dechrau yn yr hydref, wedi'i leoli yn Nhrefeca, ac eisoes mae nifer o bobl mewn gwahanol rolau yn y Cyfundeb ar hyn o bryd wedi dangos diddoreb ynddo. Bydd yr ymatebion i'r Holiadur Adeiladau ar gael yn fuan, a byddant yn darparu'r sail ar gyfer ffyrdd o symud ymlaen. A byddwn yn gweld gweithgarwch plant ac ieuenctid yn parhau ac yn cael ei adnewyddu yn y Bala. Ond byddwn yn sicr o weld pethau newydd yn dod i'r amlwg nad ydym efallai'n ymwybodol ohonynt – ac mae hynny'n gyffrous iawn. Rwy'n dymuno'n dda i chi i gyd yn eich cynllunio ac yn eich ymdrechion wrth i ni ddechrau tymor newydd.



# Sut mae'r tywydd?

## gan Heini Jones

Mae'n siŵr ein bod ni'n aml yn dyheu am dywydd sych a chynnes yng Nghymru. Yn wir, mae miloedd ohonom yn dewis mynd ar wyliau bob blwyddyn i wledydd sych a phoeth. Eto, pan mae Cymru'n profi *heatwave*, mae llawer ohonom yn ei ffeindio'n anodd ymdopi. Wrth ddarllen y Beibl, fe welwn fod yna amodau tywydd ysbrydol sydd â pheryglon gwirioneddol i'r Eglwys Gristnogol.

### • Tywydd ansefydlog difaterwch

Roedd Eglwys Laodicea (Datguddiad 3:14–22) yn gyfoethog o ran pethau materol. Ond roedd ei chyflwr ysbrydol fel dŵr yr ardal, yn glaear ac yn *revolting* i Grist. Serch ei bod heb 'eisiau dim' yn faterol, yn ysbrydol roedd hi'n 'dlawd, heb feddu dim' (William Williams, Pantycelyn). Roedd yr eglwys yn trengi oherwydd difaterwch. Gwyddom fod llawer o Gristnogion yn dioddef erledigaeth ffiaidd yn y byd heddiw, ond, yn rhyfedd iawn, mae'r Eglwys yn cryfhau yn y gwledydd hynny. Sut? Oherwydd, er ei bod yn dioddef mewn llawer ffordd, nid yw'n dioddef o ddifaterwch. Onid dyna *silent killer* yr Eglwys yn ein gwlad ni? Onid yw Crist yn ein poeri allan o'i enau?

Ond, diolch iddo, 'Trugarog a graslon yw yr Arglwydd; hwyrfrydig i lid, a mawr o drugarowgrwydd' (Salm 103). Yn ei gariad mae'n ein cynghori i edifarhau ac 'i brynu [ganddo] aur wedi ei buro drwy dân, [er mwyn inni] ddod yn gyfoethog, a dillad gwyn i'w gwisgo, i guddio gwarth [ein] noethni, ac eli i iro [ein] llygaid, [er mwyn inni] gael gweld'. Mae'n curo'r drws ac yn addo dod i mewn atom er mwyn i ni unwaith eto fwynhau ei gwmni. Pwy ŵyr, efallai y cawn yr un profiad â'r ddau ar y ffordd i Emaus, 'Onid oedd ein calonnau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni ar y ffordd, pan oedd yn egluro'r Ysgrythurau inni?' (Luc 24)

### • Glaw cyson anwiredd

Mae gwirionedd yr Efengyl bob amser wedi herio pobl. Mae'n mynnu fod pobl yn llwyr hepgor pob ffydd a gobaith oedd ganddynt o'r blaen, a throi at Iesu. Mae wedi ei gynllunio i ddwysbigo ac argyhoeddi er mwyn i bobl edifarhau a derbyn yr iachawdwriaeth sydd ar gael i bawb. Ond mae'n well gennym lynu at yr hyn sy'n ein siwtio ni, rhyw efengyl DIY sydd, fel cymaint o waith DIY, yn syrthio'n ddarnau yn y pen draw. Onid felly mae wedi bod erioed? 'Oherwydd fe ddaw amser pan na fydd pobl yn goddef athrawiaeth iach ond yn dilyn eu chwantau eu hunain, ac yn crynhoi o'u cwmpas liaws o athrawon i oglais eu clustiau, gan droi oddi wrth y gwirionedd i wrando ar chwedlau.' (2 Timotheus 4)

Fe alwodd Iesu'r Ysbryd Glân yn Ysbryd y Gwirionedd, ac fe addawodd y byddai'n ein harwain yn yr holl wirionedd (Ioan 16). Fe ddywedodd Paul fod rheidrwydd arno i bregethu'r Efengyl, 'Gwae fi os na phregethaf yr Efengyl!' (1 Corinthiaid 9)

### • Oerni rhynllyd diffyg cariad

Roedd eglwys Corinth wedi ei bendithio ag amryw o ddoniau ysbrydol. Roedd teimladau cryf yn rhedeg drwy'r eglwys, teimladau oedd yn aml yn arwain at gweryla ac ymraniadau. Mae'n amlwg fod eglwys Corinth yn ddiffygiol mewn cariad agape. Nid cariad yn seiliedig ar deimladau neu emosiynau yw agape, ond cariad sy'n seiliedig ar ein hewyllys a'n dewis.



Beth bynnag yw ein teimladau a'n doniau, mae Duw'n mynnu ein bod yn gwneud yr hyn sy'n iawn yn ei olwg ef. Diolchwn fod Paul wedi esbonio'n glir yn 1 Corinthiaid 13 beth yw agape mewn gwirionedd. Mae'n ffaith drist fod llawer o ymraniadau'n bodoli mewn gormod o eglwysi. Gair trist sy'n cael ei briodoli i lawer gormod o eglwysi yw '*split*'. Tybed ai gwahaniaethau diwinyddol yw achos pob *split*, neu ddiffyg agape?

### • Corwynt cyfaddawdu

Does neb isie bod yn amhoblogaidd. Mae comedïau fel *Motherland* a'i *spin-off Amandaland* yn dangos mor bell mae pobl yn mynd er mwyn peidio â bod yn amhoblogaidd. Fe ddywedant unrhyw beth, gwir ai peidio, er mwyn sicrhau eu bod nhw '*in*' gyda'r bobl sydd, yn eu golwg nhw, yn cyfri (nodwedd amlwg o'r Cymry dosbarth canol, efallai?).

Mae yna gyfnodau pan mae'r Eglwys yn mwynhau 'ewyllys da'r holl bobl' (Actau 2), ond nid yw'n para'n hir. Yn sicr, nid yw Duw yn galw arnom i fynd mas o'r ffordd i fod yn amhoblogaidd. Peth da fyddai i ni gofio ein bod i rannu'r Efengyl 'gydag addfwynder a pharchedig ofn' (1 Pedr 3). Ond nid yw Duw wedi ein galw i fynd mas o'r ffordd i fod yn boblogaidd chwaith. Mae wedi'n galw i fod yn ffyddlon i'r neges a'i chyhoeddi, 'boed yn gyfleus neu'n anghyfleus' (2 Timotheus 4).

Mae wedi bod yn demtasiwn erioed i'r Eglwys gyfaddawdu â'r byd, a hynny er mwyn ceisio osgoi amhoblogrwydd ac er mwyn ymddangos yn berthnasol. Fe ddywedodd yr Esgob J. C. Ryle, 'When a generation tolerates sin, the next will celebrate it, and the generation after them won't even know it's a sin'. Yn y degawdau diwethaf, nid yn unig y mae'r Eglwys wedi eistedd 'nôl wrth i'r broses yma ddigwydd, ond mae wedi ymuno yn y broses. Mae'n amlwg fod llawer yn credu fod Duw wedi newid ei feddwl ynglŷn â llawer o bethau, ac y maent yn ddigon trahaus i ddweud eu bod yn gwybod pa bethau yw'r rheini. Mae'n werth cofio rhybudd Duw drwy'r proffwyd Eseia, 'Gwae'r rhai sy'n galw drwg yn dda, a da yn ddrwg, sy'n gwneud tywyllwch yn oleuni, a goleuni yn dywyllwch, sy'n gwneud chwerw yn felys a melys yn chwerw.' (Eseia 5)

Oni ddywedodd Duw, 'Oherwydd nid wyf fi, yr ARGLWYDD, yn newid' (Malachi 3)? Mae Iago yn disgrifio Duw fel un, '[nad oes] na chyfnewid na chysgod troadau'r rhod'. Onid yw Brenin yr Eglwys, Iesu Grist, 'yr un ddoe a heddiw ac am byth'? (Hebreaid 13)

Ie, tywydd ansefydlog yw ein tywydd ni, ond gadewch i ni geisio cadw amodau ein tywydd ysbrydol mor sefydlog â phosib.

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



## Ysbrydoli Proffwydi Heddiw

Cyn i ni adael yr haf a dechrau go iawn ar fusnes y tymor newydd, hoffwn i edrych yn ôl unwaith yn rhagor ar yr Eisteddfod, ac yn arbennig ar y ddarlith arbennig fore dydd Mawrth gan Robert Rhys am y llenor a'r ymgyrchydd gwleidyddol D J Williams. Roedd pabell Cymdeithasau 1 dan ei sang, ac yn wir roedd y ddarlith ardderchog yn haeddu ei chynulleidfa dda.

Fel mewnfudwr i Gymru fe ddysgais lawer o bethau newydd am D J Williams. Ac un o'r pethau wnaeth fy nharo'n fwyaf arbennig oedd y rhan lle oedd Robert Rhys yn dangos sut roedd DJ a'i gyd-weithwyr wedi benthyg geirfa a throsiadau'r Beibl er mwyn deall a disgrifio'u gwaith eu hunain. Proffwydi cyfoes oedden nhw, ond proffwydi oedd wedi'u hysbrydoli'n fwriadol gan broffwydi'r Hen Destament.

Rhoddodd Robert Rhys sawl enghraifft i ni o'r ffordd roedden nhw wedi cofleidio esiampl a geiriau'r Beibl er mwyn cyfleu eu gweithredoedd gwleidyddol eu hunain.



I rywun fel fi, sydd â diddordeb arbennig yn hermeniwteg (neu esboniadaeth) y Beibl, mae'r ffaith fod ymgyrchwyr gwleidyddol wedi defnyddio geiriau a throsiadau ysbrydol er mwyn dehongli, cyfiawnhau ac esbonio eu gweledigaeth wleidyddol yn ddiddorol dros ben. Ond, wrth gwrs, mae'n codi cwestiwn hefyd. Pwy yw proffwydi heddiw, Lewis Valentine a Saunders Lewis a DJ ein dyddiau ni, ac o ble mae eu hysbrydoliaeth a'u trosiadau a'u geirfa nhw'n dod?

Ar ôl yr Eisteddfod, a'r cwestiwn yma'n dal yn troi yn fy mhen, aethom i briodas ein mab Tim yn Sbaen. Er bod Tim yn fab i weinidog a'i wraig yn dod o gefndir Catholig cryf iawn, fe wnaethon nhw ddewis peidio â chael seremoni grefyddol. Er hynny, fe wnaethon nhw ddefnyddio geiriau traddodiadol y gwasanaeth priodas Cristnogol – ond gan gyfeirio at 'Gariad' yn lle 'Duw'. Ac roedd yn un o'r priodasau mwyaf hyfryd ac onest dwi erioed wedi ei gweld.

Mae cyswllt rhwng darlith Robert Rhys a stori priodas Tim. Ym mhob cenhedlaeth mae 'na broffwydi sydd â gweledigaeth i wella eu gwlad, ac mae 'na bobl ifanc sy'n llawn gonestrwydd, cariad ac ysbrydolrwydd sydd eisiau ymrwymo i'w gilydd ac i'r dasg o fyw bywydau da a chyfrifol. Ond, yn gynyddol, dydyn nhw ddim yn troi at y Beibl i'w hysbrydoli – er bod dylanwad Cristnogaeth yn aml yn dal yn gryf iawn, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gwybod o ble mae'r trosiadau a'r syniadau'n dod! Maen nhw wedi colli rhywbeth, a dydw i ddim yn meddwl taw eu bai nhw yw hynny!

Efallai bydd rhai ohonom yn teimlo'n drist iawn am y golled yma, ond hoffwn i orffen gyda gair o anogaeth ond hefyd her. Y gair o anogaeth – i fi, a dwi'n siŵr i lawer o bobl eraill, roedd ysbryd Duw yn bresennol yn gryf ym mhriodas Tim, hyd yn oed os oedd e wedi cael ei alw wrth enw gwahanol. Wedi'r cwbl, os taw cariad yw Duw, mae'r ffaith fod y bobl ifanc hyn mor barod i dderbyn awdurdod a gwahoddiad Cariad yn codi fy nghalon. Ond – her, hefyd.


Os ydyn ni wir yn caru ein gwlad a'n pobl ifanc, peidiwn â gadael iddyn nhw golli rhodd anhygoel yr efengyl, gyda gwerthoedd teyrnas Iesu Grist sydd wedi ffurfio gwlad a phobl Cymru.

Mae'n rhaid i ni weithio'n galed i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyfleu'r neges anhygoel o obaith, rhyddid a maddeuant sydd gennym yn Iesu Grist, er mwyn i broffwydi a theuluoedd y genhedlaeth nesaf yfed o'r un ffynonellau dwfn â'r rhai sydd wedi ein ffurfio ni – a'n hachub ni.



# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 34

## Ymson Siffra a Pua

*Siffra*: Fe ges i orchymyn i fynd i'r palas. Ro'n i'n gwybod ym mêr fy esgyrn nad rhywbeth da oedd yn fy ngalw. Pan glywais y gorchymyn i ladd pob bachgen, aeth rhywbeth drwof, rhyw saeth benderfynol! Lladd plentyn? Na, nid fi.

Fe'i galwodd yn bolisi. Fe'i galwodd yn weithred angenrheidiol. Fe'i galwodd yn fater o ddiogelwch. Ond ro'n i'n gwybod mai'r hyn yr oedd e'n ei ddisgrifio oedd hil-laddiad.

Doedden ni ddim wedi arfer ymladd, erioed wedi gafael mewn cleddyf, a doedd dim byddin y tu ôl inni. Yr hyn oedd yn ein dwylo? Cadachau, dŵr, olew, dwylo glân a bywyd pob babi bach sy'n cyrraedd y byd hwn. Dyna ichi fraint!

*Pua*: Mae pobl yn tueddu i weld dewrder fel rhywbeth sy'n cyd-fynd ag areithiau, a thorfeydd o bobl yn cymeradwyo. Rhywbeth sy'n digwydd yn y fan a'r lle, rhywbeth cyflym. Ond weithiau, mae dewrder yn sibrwd, 'Na'. Weithiau, proses araf yw hi, dros amser. Weithiau, y gair mwyaf sanctaidd yw 'Na'.

Doedd dim pwyllgor, dim strategaeth, dim trafod hyd yn oed. Yr hyn a wnaethom ein dwy oedd penderfynu. Roedd hawl gan bob babi i gael cyfle i fyw. Mae pob genedigaeth yn fregus, pob plentyn yn drysor, pob gwaedd fach newydd yn llwyddiant. Byddai pob mam newydd o hyn ymlaen yn brawf ein bod yn gwrthod grym dinistriol Pharo.

*Siffra*: Bydd pobl yn holi 'Sut gafodd Moses ei arbed?' Wyddon nhw ddim amdana i a Pua. Cyn bod sôn am fasged yn llechu ym mrwyn yr afon a Miriam yn cuddio fan draw, roedd dwy. Dwy fydwraig a wrthododd fod yn llofruddion. Bydd hanes yn clodfori'r un a rannodd y Môr Coch yn ddau, a bydd hanes yn anghofio amdanom ni a wnaeth yn siŵr ei fod yn byw i wneud hynny!

*Pua*: Dyw fy stori i a Siffra ddim yn gorffen yn yr Aifft. Bydd yn atsain ym mha le bynnag y bydd rhywun yn gwrthod ildio, yn gwrthod derbyn trais, yn gwrthsefyll pob drwg. Pan fo merch yn siarad yn hytrach na chadw'n dawel. Pan fo mamau'n amddiffyn eu plant dan warchae creulondeb. Pan fo athro'n sefyll yn gryf o blaid y gwan. Pan fo meddyg yn gwrthod ystyried rhoi'r gorau i roi triniaeth. Pan fo newyddiadurwr yn adrodd y stori wir. Pan fo cyfreithiwr yn ymladd ei achos yn onest. Pan fo cymydog yn agor y drws. Pan fo ffrind yn cofio am ei ffrind. Pan fo mam-gu yn dysgu ei hwyrion beth yw ymddygiad da. Pan fo merch yn ei harddegau'n darganfod nad yw dewrder yn disgwyl am ganiatâd. Pan fo gweinidog yn gweithredu'r Gair.

*Siffra*: Peidiwch, da chi, â gweld tynerwch fel gwendid. Efallai mai'r dwylo mwyaf tyner fydd yn eich helpu chi ryw ddydd. Ie, efallai mai chi fydd angen y dwylo hynny, neu efallai'n wir mai eich dwylo chi fydd yn estyn cymorth. Ac os ydych chi'n pendroni sut y gallwch chi wneud gwahaniaeth, agorwch eich llygaid. Mae Pharo eich dyddiau chi yn aros am ei gyfle. Bydd Duw yn eich galw chithau i ddewis ei barchu a gweithredu'r parch hwnnw, nid dim ond credu ynddo.

**Holi**

- Bydwragedd arferol yn gweithio yn eu cymuned oedd Siffra a Pua. Beth, gredwch chi, roddodd y cryfder iddynt, er mor anodd oedd hynny, i wneud y penderfyniad i wrthsefyll gorchymyn Pharo? A gofiwch chi am ryw adeg, yn eich bywyd chi neu ym mywyd yr eglwys, pryd y bu'n anodd gwneud penderfyniad?
- Dyma stori am ddewrder tawel. Pa sefyllfaoedd heddiw sy'n gofyn inni efelychu hynny?
- Defnyddiodd Pharo ei rym i geisio gwneud drwg. Oes pethau drwg ar waith yn ein cymunedau (byw a digidol) y dylem ni godi llais yn eu herbyn?
- Pe byddai Siffra a Pua yn eistedd gyda chi nawr, beth fyddai ganddynt i'w ddweud? Sut fydden nhw'n eich cymell i weithredu ac ar beth?
- Oes yna sefyllfa sydd angen eich sylw, sgwrs y dylech ei chael, cam ffyddiog y medrwch ei gymryd, neu rywbeth rydych chi wedi bod yn ei osgoi? Wrth adael y trafodaethau neu'r myfyrio hwn, oes modd rhoi dewrder ar waith rywsut yn eich bywyd?

**Gweddi**

Sut mae bod yn ddewr?
Atgyfnertha ni.
Sut mae lleddfu ein hofnau?
Cysura ni.
Sut mae deall dirgelion bywyd?
Goleua ni.
Sut mae ymgodymu â'r drwg?
Glanha ni.
Sut mae ymdopi â phethau anodd?
Dangos inni.
Gwyddom mai Ti sy'n gwneud y gwaith. Rwyt yn gweithio trwom ni. Gwna ni'n effro a pharod.
Gwyddom dy fod yn dymuno'r gorau i bob enaid byw. Rwyt yn ein caru. Gwna ni'n gyfryngwyr. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 13 Medi 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 13 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Beti Griffiths, Llanilar

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 13 Medi, am 12:00yp**
Oedfa o dan arweiniad Robert Owen Roberts, Morfa Nefyn

**S4C**
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 13 Medi, am 8:00yh**
Ymunwch â Nia Roberts mewn cyfres newydd lle byddwn yn dathlu hanes addysg Gymraeg yng Nghwm Rhondda

# Menter Chwildro

Aeth pum mis heibio ers sefydlu Menter Gymunedol Chwildro gan estyn allan i'r gymuned yn Chwilog a'r ardal ehangach. Y nod yw trefnu a chefnogi gweithgarwch cymunedol a cheisio cwrdd ag anghenion penodol o fewn ein cymuned. Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur gydag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau i wahanol grwpiau a'r gefnogaeth yn cynyddu wrth i fwy o bobl ddod i wybod am y fenter a'i gweithgareddau.

Sefydlwyd patrwm o ddigwyddiadau misol, megis Ffrindiau Bach i blant ifanc a'u teuluoedd, Cylch Cwmni ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod at ei gilydd am baned a sgwrs, a Sesiwn Sgwrsio i bobl sy'n dysgu Cymraeg. Gan nad yw pawb yn gallu mynychu yn ystod y dydd penderfynwyd cynnig Sesiwn Sgwrsio gyda'r nos hefyd. Hyd yma mae deg o bobl wedi mynychu'r sesiynau i ymarfer siarad Cymraeg ac mae saith o bobl yn gwirfoddoli i siarad gyda nhw.

Un o'r pethau sydd wedi dod i'r amlwg yw bod y gweithgareddau'n cynnig cyfle i ddod i adnabod pobl eraill yn ein cymdogaeth. Wrth siarad gydag un o'r dysgwyr daethom i ddeall ein bod ni'n dwy wedi symud i Chwilog yn yr un flwyddyn ac mae hi wedi cymryd chwe blynedd ar hugain i ni gyfarfod ein gilydd! Mae'n gyfle hefyd i gyfarfod pobl sydd wedi symud i fyw yma yn fwy diweddar a gobeithio bod hyn yn eu helpu i ymgartrefu yn ein plith.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill yn ystod y cyfnod cyntaf hwn, megis dwy sesiwn adolygu Mathemateg TGAU, cyflwyniad ar waith Ambiwlans Awyr Cymru, sesiwn teclynnau digidol, sesiwn ar baratoi salads, bore coffi elusennol, Chwynnu Chwilog, bwrdd dillad ysgol a sesiwn ar hel achau. Diolch i bawb sydd wedi arwain y sesiynau.

Mae nifer o syniadau ar y gweill ar gyfer y tymor nesaf a rhestrir hwy ar dudalen Facebook Menter Gymunedol Chwildro. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Delyth ar delythwyndavies@hotmail.co.uk neu 07785 595768



*Pawb yn mwynhau eu salads yn y neuadd*



*Gweithdy mathemateg ar gyfer criw TGAU*




*Marian, Delyth ac Edwina yn Chwynnu Chwilog o flaen yr ysgol*



*Bore Coffi er budd Ambiwlans Awyr Cymru, lle codwyd dros £250*



*Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu gyda chriw o ddysgwyr*



*Glyn a Meinir yn cynnig cefnogaeth ar declynnau digidol*

# Y ffynnon sydd byth yn sychu

Yr oedd haf 1976 yn haf eithriadol ac mae atgofion gan lawer ohonom o'r sychder mawr bryd hynny. Fe ymddengys ei fod hefyd yn haf poblogaidd i briodi, gyda phum cwpl o Gapel Bethesda, yr Wyddgrug, wedi priodi yn ystod yr haf hwnnw ac yn dathlu eleni. Mae'n debyg ei bod hi wedi parhau'n sych hyd ddechrau Medi bryd hynny ac un o'r priodasau hynny wedi croesawu'r glaw o leiaf! Er bod y tywydd wedi torri ac i'r glaw ddod ynghynt eleni, mae hi'n dal yn sych o dan yr wyneb gyda llawer o ffermwyr yn dal i gario dŵr a'r ffynhonnau heb ddechrau llifo eto.



Ar ein teithiau yr haf hwn yn Northumbria, cawsom ymweld â ffrindiau ac â ffynnon arbennig iawn ger eu cartref nad oedd wedi stopio llifo yr haf hwn nac unrhyw haf arall o fewn cof neb. Mae'r Lady's Well yn Holystone, ger Rothbury, yn llifo haf a gaeaf ar yr un raddfa yn gyson. I ddechrau, roedd y ffynnon yn gysylltiedig efo Sant Ninian, a aeth â'r efengyl gyntaf i'r Alban yn y 5ed ganrif, yn ôl y sôn. Mae cofnod am sant arall – Paulinus – hefyd yn bedyddio tair mil o bobl yn y ffynnon yn y flwyddyn 627, nifer enfawr o bobl wrth i bobl y cylchoedd hynny ddod yn Gristnogion yn gynnar yng nghyfnod y seintiau, fel ninnau yma yng Nghymru.

Wrth feddwl am y ffynnon hon sydd byth yn sychu a'i chysylltiad efo'r saint a Christnogaeth gynnar a Cheltaidd, yr ydym yn cofio haeriad Iesu ei hun mai ef yw ffynnon y dŵr bywiol: "pwy bynnag sy'n yfed o'r dŵr a roddaf fi iddo, ni bydd arno syched byth. Bydd y dŵr a roddaf iddo yn troi yn ffynnon o ddŵr o'i fewn, yn ffrydio i fywyd tragwyddol." (Ioan 4:11)

Ond o ble mae'r dŵr yma yn Northumbria yn dod – ble mae ei darddiad? Mae'n debyg bod profion wedi eu gwneud ar ddŵr y ffynnon yma ac y gellir dweud ymhle y treiddiodd y dŵr i'r ddaear yn ôl yr isotopau a geir ynddo. Y syndod oedd fod y profion yn dangos nad oedd y dŵr yn tarddu yn unlle yn lleol ond yn llifo rywsut ymhell o dan Fôr y Gogledd o Norwy o bob man.

Meddyliwn eto am darddiad y dŵr bywiol sy'n cael ei gynnig inni gan yr Arglwydd Iesu. Mae'n dod atom mewn ffordd na allwn ni ei deall yn iawn ac yn peri bod bendithion y nefoedd yn llifo tuag atom. Mae'r pethau hyn ymhell o'n cyrraedd ni ond, drwy ras ein Harglwydd Iesu, yn dod â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd yn agos agos at bob un ohonom sydd am eu derbyn a'u cofleidio (Effesiaid 1:3).

Cofiwn am y ffynnon yna o fendith: maddeuant, gras, trugaredd, cariad a daioni sy'n llifo'n gyson a di-feth tuag atom yng Nghrist, a ddaeth o bellter y nefoedd er mwyn rhannu ei hun â ni drwy ei fywyd a'i farwolaeth drosom ar y groes.

*Huw Powell-Davies*

## Dod i Fod, Dod i Berthyn

**12–13 Hydref 2026**
**Coleg Trefeca**

Siaradwyr:
Dr Eric Stoddart, Parch. Ddr Sarah Brush
a Dr Corey Hampton

Beth fyddwn yn ei olygu wrth gyfeirio at ffurfiant a thwf ysbrydol? Ym mha ffyrdd y gall Cristnogion fod wedi eu paratoi'n well ar gyfer her gweinidogaeth yn yr 21ain ganrif? Sut fedrwn ni fanteisio ar rym cymuned i sicrhau twf a ffyniant? Beth yw rhan diwinyddiaeth yn ffurfiant ffydd? Pa wersi a ellir eu dysgu o'r cyd-destun a'r profiad Cymreig?

Fe fydd 'Dod i Fod, Dod i Berthyn' yn gyfle i fyfyrio ar ddyfodol ffurfiant o fewn ein cymunedau, ein heglwysi a chyd-destun ein hyfforddiant diwinyddol. Bydd ein siaradwyr yn cynnig cipolwg newydd ar dwf ysbrydol, gan wynebu'r cwestiynau sy'n herio'r eglwys mewn oes ôl-seciwlar. Cynhelir y digwyddiad yng Ngholeg Trefeca mewn partneriaeth â Chymdeithas Ddiwinyddiaeth Ymarferol Prydain ac Iwerddon. Bydd hwn yn gyfle i encilio a mwynhau prydferthwch y Bannau wrth inni ddod at ein gilydd yng nghrud Methodistiaeth Galfinaidd.

Mae hon yn gynhadledd ddwyieithog, gyda rhai sesiynau'n cael eu cyflwyno yn Saesneg a rhai yn Gymraeg. Darperir cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob sesiwn a gyflwynir yn yr iaith Gymraeg.

Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael yn y gynhadledd hon. I gadw eich lle, ewch i: https://www.biapt.org/event/becoming-belonging-formation-conference-at-trebecca-12-13-october-2026/

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.